

Gwyliedydd



CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



Llun: Alan M Barker

Had y wlad sydd yn ei Law, a dyna
wyrth dadeni distaw,
a bendith y gwllith a'r glaw
ddaw o'i heulwen a'i Ddwylaw.

Robin Hughes

SUT MAE MARW'N DDA?

gan y Parchedig Martin Evans-Jones

Yn efengyl Luc mae hanes hen ŵr o'r enw Simeon (Luc 2.26). 'Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Meseia'r Arglwydd'. Pan ddaeth rhieni'r Iesu ag ef i mewn i'r Deml i gael ei gyflwyno, roedd Simeon yno'n disgwyl amdano. 'Cymerodd Simeon ef i'w freichiau a bendithiodd Dduw gan ddweud: "Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd, mewn tangnefedd yn unol â'th air; oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth".

Dyna sut mae marw'n dda. Mi gymerais angladd gŵr ifanc yn ddiweddar oedd wedi dioddef yn hir o afiechyd terfynol. Gwnaethpwyd popeth yn yr ysbyty i geisio achub ei fywyd. Roedd dyfodol disglair o'i flaen. Ond methwyd â'i arbed, er tristwch mawr i'w deulu a'i ffrindiau. Yn ystod y misoedd hir yn yr ysbyty arferai eistedd yn ddistaw yng nghapel yr ysbyty yn myfyrio. A phan ddaeth y diwedd diolchodd yn arbennig i'r nyrsys a'r meddygon oedd wedi ei ymgeleddu mor hir ac mor dda. Aeth yn ufudd ac yn dawel i'w gartref nefol er mawr gysur i'w deulu. Dyna beth yw marw'n dda.



John Wesley, 17 Mehefin, 1703 – 2 Mawrth, 1791

Ysgwn i a fydd gennyf innau yn yr gwroldeb pan ddaw fy nhro innau i farw? Tybed fedraf fi farw'n dda? Ar Fawrth yr ail 1791 bu farw sefydlydd ein henwad, John Wesley, wedi bywyd hir, prysur a llwyddiannus. I Fethodistiaid roedd marwolaeth dda yn brawf hanfodol o sicrwydd eich ffydd. Roedd marwolaeth dda yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth i berswadio amheuwyr a gwrthgilwyr o'r tangnefedd sydd uwchlaw pob deall. Roedd tystiolaeth o farwolaeth lawen yn orfodol, yn enwedig i bennaeth yr enwad!

Roedd y wraig oedd yn cadw tŷ iddo, Miss Elizabeth Ritchie, wedi cael ei siarsio i gadw cofnod manwl o ddyddiau olaf y dyn mawr. Rhedodd i dros bum mil o eiriau. Pan ddisgynnodd John i goma, gweddiodd Miss Ritchie y câi ddeffro cyn marw, i'w ddilynwyr ffyddlon gael ei glywed yn "ailadrodd y gwirioneddau bendithiol yr ydym wedi

hen arfer eu derbyn gan Dduw trwyddo ef". Ar ôl pedwar diwrnod mewn coma, deffrodd ac fe ofynnwyd iddo beth oedd ganddo i'w ddweud. Atebodd, "Dim byd ond y gorau oll, Duw sydd gyda ni". Chwarae teg i'r hen ddyn.

Ond i mi beth sydd fwyaf trawiadol ynglŷn â'i farwolaeth oedd ei ddymuniaid nad oedd ei angladd i fod yn mawreddog. Roedd ei gorff i gael ei orchuddio mewn gwllan ac roedd pedwar dyn tlawd i gael ugain swllt am gario ei arch.

Pan ostyngwyd ei gorff i'r ddaear gyda'r geiriau, "Gan gymaint y



Ffenestr Goffa Epworth

rhyngwyd bodd i Dduw Hollalluog gymryd ato'i hun enaid ein tad annwyl yn y ffydd..." torrodd y dorf i lawr i grio'n hidl.

Diolch i Iesu Grist am ddangos i ni nad oes angen ofni marwolaeth – mynedfa yw i fywyd tragwyddol.

'TROES EF EI WYNEB I FYND I JERUSALEM' (LUC 9:51)

gan y Parchedig Marc Morgan

Nid yw'r syniad o fynd ar daith yn un dieithr yr adeg yma o'r flwyddyn. Onid dyna a wnaeth yr Iesu ar Sul y Blodau pan ymdeithiodd i mewn i Jerwsalem ar gefn ebol asyn?

Derbyniodd groeso'r dyrfa oedd wedi teithio yno i ddatlu'r Pasg. Ond nid dyna gychwyn y daith tua'r Wythnos Fawr a'r Pasg; parhad ydoedd o daith a gychwynnodd ynghynt. **Cyn cychwyn ar unrhyw daith rhaid paratoi a chasglu pethau at ei gilydd. Mae'r un peth yn wir am ein taith ysbrydol ni tuag at y Pasg a dyna beth yw cyfnod y Grawys.** Mae ein taith yn mynd o fynydd y Gweddnewidiad i fynydd Calfaria.

Yma yn Ardal Glannau Maelor, braf yw cael cyd-deithio eto eleni gyda'n cyfeillion o enwadau eraill mewn

llawer man. Cynhelir Seiadau'r Grawys yn Wrecsam, yr Wyddgrug a Threffynnon. Sgwrs a chinio cynnil yw'r drefn yn y Fflint. Ceir amrywiol oedfaon a digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Fawr sy'n arwain at Sul y Pasg. Felly gadewch inni baratoi i



deithio at y bedd gwag. Yng ngeiriau'r emynydd E. Cefni Jones:

Gyda sanctaidd wawr y bore teithiai'r gwagedd at y bedd, clywid ing yn sw'n eu camre, gwelid tristwch yn eu gwedd; cododd Iesu! Ocheneidiau droes yn gân.

Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

RHIF 199

IONAWR-CHWEFROR 2016

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i
aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**Hoffem eich atgoffa'n garedig, er
bod y Gwyliedydd am ddim, fod
angen talu swm bychan iawn, £4 y
flwyddyn, i gael copi unigol drwy'r
post.**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR
YN YR EITEMAU UNIGOL**

Golygyddion:

ROBIN JONES

LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907

e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

FFION ROWLINSON

CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365

e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion

DYDDIAD CAU: 1 MAWRTH, 2016

Dylid gwneud sicciau yn daladwy i
“Yr Eglwys Fethodistaidd –
Synod Cymru”

Argraffwyr:

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

Dymuna Robin ddiolch o galon i bawb am
eu dymuniadau da yn ystod ei waeledd.
Sylwer, fodd bynnag, nad yw wedi gallu
trefnu Pererindod eleni. Gobeithio'n fawr
y gellir trefnu Pererindod yn 2017.

Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

CHWEFROR	MAWRTH
7 Gwyliau	6 Llanrhaeadr
14 Bathafarn	13 Ceredigion
21 De Gwynedd	20 Dyffryn Clwyd
28 Morgannwg	27 Glannau Meirion a Dyfi

OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **JENNIFER HURD**

Rhan bwysig o hyfforddiant pob
gweinidog yw mynd ar leoliad at
weinidog profiadol. Fel gweinidog
cylchdaith, mwynheais gwmni sawl
myfyriwr ar leoliad, gan gynnwys y
Diacon Sara Windsor-Hides, sydd
erbyn hyn yn gaplan yng nghartref
henoed MHA Hafan-y-Waun yn
Aberystwyth. Cofiaf yn dda y cyfnodau
a gefais i fy hun ar leoliad fel myfyriwr,
ac rwyf yn ddiolchgar iawn am beth
ddysgais i. Cofiaf un peth pwysig a
ddysgais, mewn gwasanaeth un nos
Sul pan oeddwn ar leoliad. Roeddwn
yn eistedd yn y gynulleidfa ac yn
gwrando ar Bregethwr Lleol yn arwain
y gwasanaeth. Ceisiai annog y rhai
oedd yn bresennol: “Rejoice in the
Lord always;” meddai, gan ddyfynnu
Philipiadaid 4:4, ‘again I will say, Rejoice’!
Are you rejoicing? Well, are you? You
don’t look as if you are! Rejoice!
Rejoice!”

Edrychais o gwmpas y gynulleidfa a
gweld pobl y deuthum i’w hadnabod yn
ystod fy lleoliad: merch a oedd yn
disgwyl canlyniadau profion yn yr
ysbyty, dyn y bu farw ei wraig
bythefnos ynghynt, gwraig oedd yn
poeni am ei mab oedd â thri o blant ac
a gollodd ei swydd yr wythnos cynt.
Doedd dim modd i’r pregethwr wybod
am yr amgylchiadau hyn, ond roedd yn
gwbl amlwg i mi pam na fuasai’r bobl
dan sylw yn llawenhau. Yn wir,
dysgais rywbeth pwysig ynglŷn â
gonestrwydd gerbron Duw. Yn ddi-os,
mae gennym bob amser reswm i
lawenhau, ond mae Duw yn ein
hadnabod ac mae’n gwybod beth sy’n
mynd ymlaen yn ein bywydau a’n
calonnau. Allwn ni ddim twyllo Duw.

Gyda’r rhifyn hwn o’r *Gwyliedydd*,
byddwn yn cyrraedd hanner ffordd
trwy’r flwyddyn gyfundebol. Felly, yn
Synod Cymru, rydym hanner ffordd
trwy ein blwyddyn o ganolbwyntio ar
thema Addoli, un o bedair blaenoriaeth
yr Eglwys Fethodistaidd o dan “Ein
Galwad”. Ac yn bwysicach fyth, gyda’r
Eglwys gyfan fe gyrhaeddwn dymor y
Grawys pan fyddwn yn paratoi ar
gyfer dathliadau’r Pasg ac atgyfodiad
yr Iesu. Mae’n gyfnod pan fyddwn yn
ein harchwilio’n hunain gan ystyried
ein bywydau ysbrydol a’n perthynas â
Duw ac â’n gilydd. Mae’n dymor i fod
yn onest am bwy ydym ni a phwy yw

Duw. Wrth i ni edrych arnom ein
hunain - ein cryfderau a’n gwendidau
- allwn ni ddim twyllo Duw. Mae’n
rhaid bod yn onest gerbron Duw, sy’n
ein hadnabod yn well na ni ein hunain,
ac sy’n ein caru ni, diolch byth!

Mae’n rhaid bod yn onest, felly, yn
ein haddoliad. “Llawenhewch gyda’r
rhai sy’n llawenhau, ac wylwch gyda’r
rhai sy’n wylo”, medd y Beibl yn
Rhufeiniaid 12:15. Mae’n hanfodol bod
pob gwasanaeth, a bod ein defosiwn
personol hefyd, yn cynnwys cyfle ar
gyfer hunanarchwiliad a chyffes, a
chyfle inni fod yn onest gerbron Duw a
cheisio ei faddeuant. Mae’r Salmu’n
adnodd hynod bwysig yn hyn o beth.
Mae digon o Salmu sy’n rhoi clod i
Dduw, ond mae nifer go dda hefyd sy’n
alarnadau, lle mae’r Salmydd yn
mynegi tristwch, pryder, ofn ac
anobaith gerbron Duw. Mae Salmu
megis rhifau 6, 13, 22, 38, 42, 51, 69, 77
a 130 yn y categori hwn, ac rwyf yn
eich annog chi i’w defnyddio yn ystod
tymor y Grawys. Sylwch pa mor aml
maen nhw’n mynegi hyder yn Nuw, yn
ogystal â theimladau gonest y
Salmydd. Mae’n rhaid i ni gofio am
drugaredd a gras achubol y Duw hwn
na allwn ei dwyllo.

Mae angen bod yn onest gyda Duw,
felly, a chyda’n gilydd fel chwirydd a
brodyr yn y ffydd. Rwyf wedi gwas-
anaethu mewn llefydd lle roedd pobl
yn onest bron hyd at anfoesgarwch a
chreulondeb, ond gwasanaethais hefyd
mewn llefydd lle nad oedd pobl yn
onest efo’i gilydd ond yn mynd i mewn
i gorneli a thu ôl i ddrysau caeedig i
gwyno wrth ei gilydd am rywun arall
yn hytrach na siarad am y sefyllfa efo’r
person dan sylw, wyneb yn wyneb.
Mae’n bosibl canfod ffyrdd adeiladol a
chariadus o fod yn onest efo’n gilydd
pan nad ydym yn hapus am rywbeth.
Buaswn i’n hoffi meddwl fy mod yn
rhywun y gall pobl ddod ataf i fynegi
consyrn...os nad wyf yn dod drosodd fel
person hawdd mynd ati, buaswn yn
gwerthfawrogi clywed eich barn onest!
Cofiw’n hefyd fod angen bod yr un mor
onest am y pethau rydym yn eu
gwerthfawrogi. Mae mwy o Salmu
mawl nag o rai galarus! Diolch i Dduw
ein bod ni’n gallu bod yn onest ger ei
fron, ac na fydd byth yn ein gwrthod.
Clod iddo!

CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Er bod gwyddonwyr yn gwybod am fodolaeth DNA ers 1860 a gwaith mawr wedi'i wneud yn y maes, fe ddaeth y darganfyddiad pwysicaf yn 1953. Yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif fe fu'r gwyddonwyr Crick a Watson yn ymchwilio i strwythur DNA yn Labordy Cavendish yng Nghaergrawnt gan gydweithio â Wilkins a Rosalind Franklin. Fe ddaeth yr awr fawr yn 1953 wedi i Crick a Watson syllu ar ddarluniau pelydr X a baratowyd gan Franklin ac i'r ddau sylweddoli mai strwythur helics-dwbl oedd i folecwl DNA. Rhoddwyd gwobr Nobel i Crick, Watson a Wilkins am eu gwaith arloesol ond gan fod Rosalind Franklin wedi marw yn 1958, nid oedd yn bosib i awdurdodau Gwobr Nobel ei chydnabod am ei gwaith.

O 1953 ymlaen agorodd y llifddorau gwyddonol ym maes DNA ac mae datblygiadau lu wedi digwydd ers hynny a llawer yn cael ei ychwanegu at ein gwybodaeth feddygol. Yn wir mae rhaglenni teledu poblogaidd fel 'DNA Cymru' wedi gwneud y maes yn destun adloniant wrth i enwogion o'n plith ddarganfod pwy oedd eu cyndeidiau hynafol. Bellach fe honnir y gellir dweud pwy yw gwir ddisgynyddion y Celtiaid yn

ein plith! Mae'r cyfan yn rhyfeddod a'r gobaith yw y bydd yr ymchwiliadau yn arwain at ddarganfod gwellhad i'r clefydau mwyaf erchyll sy'n blino dynoliaeth.

Tybed a oes yna'r ffasiwn beth yn bod â DNA crefyddol a allai esbonio sut y bu i rai unigolion ymateb i'w stad ysbrydol yn y fath fodd nes i'r cyfan arwain at ddiwygiadau a newidiodd wlad fel Cymru am byth.

Mab i saer coed tlawd a symudodd i Dalgarth oedd Hywel Harris a anwyd yn 1714. Roedd ei frodyr hŷn yn arbennig o alluog - Joseff a benodwyd yn Brofwr yn y Bathdy yn Llundain a Thomas a wnaeth ffortiwn wrth werthu dillad i'r fyddin ac a ddaeth ymhen amser yn Siryf Brycheiniog. Addysgwyd Hywel i fod yn athro ysgol ond roedd ei fryd ar ymgeisio am Urddau Eglwysig. Gwrthodwyd ef oherwydd ei fod yn pregethu heb hawl gan yr Eglwys Wladol.

Yn 1735 sef 280 o flynyddoedd yn ôl, fe newidiodd ei fywyd yn gyfan gwbl pan glywodd ficer Talgarth, ar Sul y Blodau, yn rhybuddio ei blwyfolion os nad oeddynt yn gymwys i ddod at fwrdd yr Arglwydd, nad oeddynt yn gymwys i weddio, yn gymwys i fyw nac yn gymwys i farw. Erbyn Mehefin 1735 roedd wedi derbyn sicrwydd bod ei uffern fewnol wedi dod i ben.

Dyma yn sicr y dröedigaeth fwyaf tyngedfennol yn hanes Cymru, a fu'n gyfrwng i newid cwrs datblygiad ein gwlad yn gyfan gwbl. Rhaid wrth gwrs gydnabod cyfraniad eraill i barhad y Diwygiad Efyngyllaidd ond heb danbeidrwydd a dyfalbarhad Hywel Harris, mae'n amheus a fyddai lledaeniad y deffroad wedi mynd mor ddwfn ac mor bell.

Mewn llyfr a gyhoeddwyd yn 1913, 'The Welsh People', fe geir darlun cryno o effaith y Diwygiad ar ein gwlad, gan yr awduron Syr John Rhys a David Brymer. Dyma ddyfynnu darn o'r llyfr. "Yn 1730 y Cymry Cymraeg eu hiaith, ar y cyfan, oedd y bobl leiaf crefyddol a'r lleiaf deallus o holl drigolion Lloegr a Chymru. Erbyn 1830 hwy oedd y bobl fwyaf cydwybodol a chrefyddol yn yr holl Deyrnas. Heb amheuaeth fe fu diwygiad crefyddol ond roedd rhywbeth arall wedi digwydd hefyd. Yr oedd mewn gwirionedd yn enedigaeth newydd ymhlith pobl y genedl."

Fe ddylanwadodd y Diwygiad ar bob gwedd o fywyd y gymdeithas. Rhoddwyd cyfle i'r werin ddysgu darllen ac mewn cyfnod cymharol fyr dechreuwyd mynnu hawliau na welwyd eu bath erioed o'r blaen. Erbyn Diwygiad mawr 1859 roedd sawl brwydr gymdeithasol a gwleidyddol wedi'i hennill a'r Gymru Doriaidd wedi troi i gyfeiriad y Blaid Ryddfrydol.

Mae olion dylanwad diwygiad cyfnod Hywel Harris i'w ganfod o hyd ar fywyd Cymru 2016. Efallai nad yw'r bwrlwm mor amlwg ag a fu gynt gyda llawer llai yn mynychu eglwys a chapel, ond y ffaith yw bod y tân i'w ganfod hwnt ac yma wrth i'r Ysbryd Glân ymddangos yn y manau mwyaf annisgwyl. Mae yna weddill ffyddlon o hyd yn disgwyl am un fel Hywel Harris i ddefnyddio'r fegin i droi'r marwydus yn fflamau ysol yr Ysbryd Glân unwaith eto.

Efallai fod rhai yn barod i ddadlau mai trwy hap a damwain y mae DNA yn gweithio, ond o astudio hanes crefyddol ein gwlad yn fanwl, gellir gweld bod Crëwr DNA pob un ohonom wedi bod ar waith ymhlith pobl Cymru a'r byd.

O'R PEN YMA

gan Angharad Tomos

Mi gollais Mam ar Ddydd Calan eleni, ac mae'r briw yn dal yn boenus. Wedi rhannu eich bywyd am dros hanner canrif efo rhywun, mae hynny i'w ddisgwyl. Maddeuwch i mi daro tant personol yn y rhifyn hwn.

Un cyngor buddiol a gefais gan fy Mam ar adeg profedigaeth oedd 'Triwch beidio gwneud pobl eraill yn ddiagonalon'. Cyngor od ar un olwg, ond fe'i cafodd gan rywun oedd wedi bod drwy brofedigaeth lem. Nid ymdrech ffals i fod yn iawn yw'r cyngor hwn, ond rhybudd i beidio llethu eraill gyda'ch tristwch.

Uwchlaw popeth arall, roedd Mam yn berson pobl. Cymerai ddiddordeb byw yn yr hil ddynol, a diléit yn eu cwmni. Rhyfeddai yn gyson at yr hyn a wnâi

pawb ar y byd yn wahanol i'w gilydd. Person ei milltir sgwâr ydoedd.

Bydd llawer yn y pen hwn yn ei chofio fel ffrind neu gymdoges dda. Roedd yn hoffi ymweld â phobl, yn mwynhau sgwrs, rhannu straeon a phrofiadau, gan gofio ymweld â hwy mewn gwendid, mewn profedigaeth, neu ar adegau hapusach pan oedd dathliad neu enedigaeth.

Cododd beth wmbredd o arian – drwy wneud marmaled a chutneys a chyflath – i Blaid Cymru, Merched y Wawr, Pwyllgor yr Anabl, heb sôn am gasglu at Gymorth Cristnogol bob blwyddyn. "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth". A rhoddai o'i hamser yn hael – fyddai hi



byth yn grwgnach. Yn helpu pobl oedd hi hapusaf.

A welais i rioed Wesla debyg. Ar wahân i Nhad, John Wesla oedd y dyn pwysicaf yn y byd! Gwasanaethodd Gapel Ty'n Lôn yn ffyddlon am hanner canrif. Nid yn gyhoeddus oedd hi am ei gael ei gweld, ond yn y cefndir. Daeth ei pharatoadau am de blyneddol y Cyfarfod Pregethu yn chwedlonol.

A dyna sut ydw i am ei chofio, yn gwenu, yn sgwrsio, yn cymdeithasu, yn hapus. Yn aml iawn, hi oedd yr olaf i adael stafell gan fod cystal blas ar y sgwrs. Bechod na fyddai mwy yn y byd yr un fath â hi. Tase pawb yn y byd yn lecio sgwrsio cymaint ag oedd Eryl Haf, dwi'n sicr y byddai llai o gasineb a rhyfela yn yr hen fyd 'ma.

Dymuna Robin a Ffion, ynghyd â phawb sy'n mwynhau darllen dy waith, gydymdeimlo'n ddiffuant â thi, Angharad, ac â'r teulu i gyd yn eich colled a'ch hiraeth.



Ydych chi wedi darllen neu efallai glywed rhywbeth trawiadol yn ddiweddar? Rhywbeth yr hoffech wybod mwy amdano neu ei drafod? Os felly, dyma gyfle perffaith i chi wyntyllu'r mater a holi barn rhai o arweinwyr Synod Cymru.

2. Beth yw eich barn am y syniad sydd ar droed o sefydlu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Nghymru, i gofio am gyfraniad heddychwy?

Ateb Jennie

Mae hyn yn ddiddorol ofnadwy i mi oherwydd yn y Gynhadledd Fethodistaidd yn Southport yr haf diwetha, daeth Rhybudd o Gynnig o lawr y Gynhadledd sy'n taro nodyn go debyg. Galwodd aelod o'r Gynhadledd, efo cefnogaeth aelodau eraill, ar i'r Eglwys Fethodistaidd gydweithio â mudiadau heddwch Cristnogol i gynnal oedfa arbennig ym mis Chwefror 2016 er mwyn nodi 100 mlynedd ers i wrthwynebu cydwybodol ddod yn gyfreithlon. Daeth y gyfraith honno i fod ar yr un un pryd â gorfodaeth filwrol. Mae'r oedfa hon am gael ei darlledu ar y We, er mwyn diolch am Gristnogion dros y blynyddoedd sydd wedi codi llais yn erbyn rhyfel a cheisio creu diwylliant heddwch. Pleidleisiais i o blaid y Rhybudd o Gynnig ac felly buaswn o blaid sefydlu Dirwnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol hefyd. Unrhyw beth sy'n gallu dangos fod dewis arall yn bosibl ar wahân i drais a rhyfel - yn arbennig yng Nghymru, lle mae ymuno â'r lluoedd arfog wedi cael ei roi gerbron ein hieuenctid fel dewis o yrfa ers blynyddoedd.

Y Parchedig Jennifer Hurd

Robin a Ffion, y cyd-olygyddion, sydd wedi cyflwyno'r cwestiynau isod ac rydym yn ddiolchgar iawn i Jennie, Martin ac Elizabeth am eu hymateb. Cawn gynnwys colofn 'Holi'r Panel' yn y Gwyllydydd eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn – hynny yw, os cawn gwestiynau a sylwadau gan ein darllenwyr!

1. Dywedodd Sant Isaac o Syria fod holl bechodau dynolryw fel llond llaw o faw a deflir i'r môr, o'u cymharu â thrugaredd Duw. Beth yw eich ymateb i hyn, neu pa ddelwedd o drugaredd Duw sy'n apelio'n arbennig atoch chi?

Ateb Jennie

Buaswn i wedi hoffi cyfarfod â Sant Isaac o Syria, dwi'n meddwl! Un o fy hoff emynau yn Saesneg yw 'There's a wideness in God's mercy' gan Frederick William Faber (Singing the Faith 416), a gyfieithiwyd i'r Gymraeg gan J.T. Job fel rhan o'r emyn 'Chwi, eneidiau, pam y crwydrwch' (Caneuon Ffydd 376). Mi feddyliais i yn syth am yr emyn yma, wrth i mi ddarllen y cwestiwn. Mae'n sôn am ehangder trugaredd a chariad Duw, o'i gymharu â chulni ein dealltwriaeth ni, y ddynolryw, ohono. Mae'n sôn am "plentiful redemption in the blood that has been shed" ac am "grace enough for thousands of new worlds as great as this". Mae ymwybod o ras a chariad a thrugaredd Duw yn llifo trwy'r geiriau, ac mae'r cyswllt â'r hyn a ddywedodd Sant Isaac o Syria yn amlwg, gobeithio. Os nad yw hynny'n ddigon, nid oes ond eisiau inni edrych tua Bethlehem, a'r preseb. Dyna ddelwedd gryfach fyth o drugaredd Duw - yr ymgnawdoliad. Ac mae Duw yn dyheu i ni ymateb efo gras a chariad a thrugaredd hefyd, tuag at ein gilydd ac atom ni ein hunain.

Y Parchedig Jennifer Hurd

Ateb Martin

Mae Sant Isaac yn llygad ei le. Cariad di-ben-draw yw natur y Creawdwr a bwriad ein creu yw, yn ôl y llythyr at y Colosiaid: "Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo ef (sef Crist), a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei farw aberthol ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd" (1.20). Fy nghais i esbonio yr adnod yna yw dweud mai Crist yw pinael y cread ac ym meddwl Duw bwriadwyd ninnau i rannu yn ysblander Crist ryw ddydd. Yr arwydd gorau o gariad Duw yw'r ffigwr tosturiol ar y groes sydd yn gallu maddau'r cwbl o'n drygioni er cymaint y gost iddo'i hun. Efallai fod Sant Isaac fel pe bai yn diystyru maint ein pechod trwy ei gymharu â "llond llaw o faw" ond dim ond eisiau pwysleisio cymaint mwy yw trugaredd Duw y mae.

Mae darlun hyfryd arall o drugaredd Duw i'w gael yn yr Hen Destament yn llyfr Genesis (pennod 18,16-33) sef hanes Abraham yn erfyn ar Dduw dros Sodom. Bwriad Duw oedd difa Sodom "oherwydd fod eu pechod yn ddrwg iawn". Ond dadleuodd Abraham â'r Arglwydd, "A wyt yn wir am ddifa'r cyfiawn gyda'r drygionus?" Gan ddechrau efo hanner cant o rai cyfiawn mae Abraham yn raddol yn cael y nifer i lawr fesul pump. "Beth os ceir yno ddeg?" Ac meddai'r Arglwydd, "Ni ddinistriaif hi er mwyn y deg". Ac fel y gwelir yn stori Noa a'r dilyw, os oedd dim ond un dyn cyfiawn yn bodoli ar y ddaear, ni fyddai Duw wedi dinistrio'r cread oherwydd drygioni dynion. Mae ei gariad yn rhy fawr.

Yng nghanol prifddinas Caerdydd, a minnau'n aros i Gwen ddod allan o siop, gorfodwyd fi i wrando ar griw o Gristnogion yn herio'r dorf oedd yn pasio heibio i edifarhau cyn iddi fynd yn rhy hwy'r arnynt ac y teflir hwy i uffern am eu pechod. Nid un felly yw'r Duw a ddarluniodd Iesu yn ei fywyd ac yn ei neges.

Y Parchedig Martin Evans-Jones

3. Beth mae'r Grawys yn ei olygu i chi?

Ateb Elizabeth

Mae'r gwanwyn, a pharatoi at y Pasg, yn dod â gobaith. Yn bersonol, ni fyddaf yn gwneud pethau penodol fel gwneud heb hyn a'r llall, yn ystod y Grawys, ond rwy'n gweld cymedroldeb yn beth pwysig. Llawen haf o weld byd natur yn deffro unwaith eto, ar ôl gaeaf a ddaeth â llyfoggydd enbyd eleni. Uchafbwynt ein gobaith yw atgyfodiad Crist ac yn sicr mae angen cofio am y gobaith a ddaw i ni drwy hyn, yng nghanol helyntion ein byd heddiw. Diolchwn am atgyfodiad Crist: ef yw arweinydd pob symudiad at welliant.

Mrs Elizabeth Jones, Arweinydd Ardal Bathafarn, Synod Cymru

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

Shiloh, Tregarth

BRAF EICH GWELD YN ÔL

Mae'n braf iawn cael croesawu ein horganydd, Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, yn ôl i'w sedd wrth yr organ wedi iddo gael llawdriniaeth yn ddiweddar. Gwellhad llwyr a buan i chi Wynn.

RHODD I'R CAPEL

Yn ddiweddar cyflwynwyd rhodd arbennig i Gapel Shiloh gan Valerie a David Ellis Jones, er cof am rieni Val, sef y diweddar Audrey a Laurence Davies, Glan Gors. Cyflwynwyd lliain bwrdd hardd i'w osod ar y bwrdd Cymun ac fel aelodau diolchwn am y rhodd hyfryd er cof am ddau aelod fu'n ffyddlon iawn yma am flynyddoedd lawer.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG

Pob dymuniad da i Mr J.O. Roberts, un o flaenoriaid Shiloh a phregethwr cynorthwyol ffyddlon, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Dymunwn yn dda yn ogystal i'w chwaer, Mrs Edith Hughes, sydd hefyd wedi dathlu pen-blwydd arbennig; mae Edith wedi cyrraedd yr oedran teg o 95 mlwydd oed.

GWASANAETHAU'R NADOLIG

Roedd yr **oedfa ar Ragfyr 13 dan ofal aelodau ifanc a rhieni'r capel**. Yn ogystal â darlleniadau a charolau, clywsom bedwarawd offerynnol teulu Cwm Hyfryd, Mynydd Llandygai, unawd piano gan Gwenno Roberts a chyflwyniad gan rai o'r plant ar ddatlu'r Nadolig mewn gwahanol wledydd o gwmpas y byd. Cymerwyd rhan gan Esme a Luke, Ifan Rhys, Myfi Celyn, Nel Mai, Hannah, Gwenno ac Iestyn, Osian, Morus a Gwenlli. Diolch o galon am gymorth yr oedolion hefyd sef Christine Morris Jones, Bethan Crowe, Sioned Roberts, Elin Sanderson ac Ashley Cooke. Cafwyd parti Nadolig yn y Ffestri i ddilyn ac yn ôl yr arfer daeth Siôn Corn â'i sach yn llawn anrhegion.

Diolch i Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, am drefnu **oedfa ar nos Sul, Rhagfyr 20**. Yn ogystal â darlleniadau o'r Beibl, cawsom ddeholiad o farddoniaeth o Gymru ar draws y canrifoedd gan gynnwys gwaith cyfoes a charolau hen a newydd. Diolch i Anwen Griffiths, Olwen Jones, Angharad Williams, Valerie Ellis Jones, Ffion Rowlinson, Hazel Hughes, Gwenda Davies, Eirwen Williams a Wynn Williams am gymryd rhan. Cafwyd hefyd

ddatganiad cerddorol arbennig iawn gan ein horganydd a bu'n oedfa fendithiol iawn.

Braf iawn oedd cael croesawu ein gweinidog, y Parchedig Philip Barnett a'i briod Catherine i **oedfa Noswyl y Nadolig**. Cafwyd pregeth amserol a chyfle i ymuno wrth Fwrdd y Cymun cyn noswyl. Diolch i Philip am ei holl waith yma yn Shiloh eleni a dymunwn iechyd a thangnefedd iddo ef, Catherine a'r teulu yn 2016.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mrs Lilian Brocklebank yn ei phrofedigaeth o golli ei nai sef y Prifardd Gwynfor ab Ifor.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Roma Griffiths, aelod ffyddlon a oedd yn dod i'r gwasanaethau yma gyda'i merch Gwen hyd ei salwch diweddar. Yr un yw ein cydymdeimlad â Rhian a Ffion, a'r teulu oll, ym marwolaeth Eurwen Pennant Lewis, gweddw'r diweddar Barchedig Meilir Pennant Lewis.

Gohebydd – Gwenda Davies

Bethel, Prestatyn

DATHLU'R NADOLIG

Cawsom Nadolig arbennig ym Methel eleni. Cychwynwyd y dathliadau gyda'r Ysgol Sul yn cael te gyda Siôn Corn - cyfle i bawb gael sgwrs bach gyda Siôn



Corn a derbyn anrhegion. Yna, wedi Suliau o ymarfer dyfal, cawsom berfformiad gwyg gan y plant o ddrama'r geni yng **Ngwasanaeth Nadolig y Plant**. Cawsom hefyd unawdau, deuwad a phartion yn canu carolau. Offrymwyd y fendith gan y Diacon Jon Miller ac yna mwynhawyd coffi, mins peis a sgwrs yn yr ysgoldy. Roedd yn hyfryd gweld y capel yn llawn. Diolch o galon i'n holl



Y Diacon Jon Miller

rieni a'r athrawon Ysgol Sul am helpu'r plant i ddysgu eu rhannau mor ardderchog. Ar **Noswyl Nadolig** cawsom wasanaeth hyfryd yng ngolau kannwyll, wedi ei drefnu gan ein gweinidog. Gorffennodd y gwasanaeth am hanner nos union a chawsom gyfle i ddymuno Nadolig Llawen i'n gilydd dros win poeth a mins pei. Cawsom hefyd wasanaeth **Plygain** undebol gyda Rehoboth, gwasanaeth bendithiol ac amrywiol.

LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Mrs Mair Roberts, mam Beryl, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed. Llongyfarchiadau hefyd i Liam a Manon, dau o'n haelodau ifanc, ar eu dyweddiad ar ddiwrnod Nadolig.

GWAITH ADNEWYDDU

Mae'r gwaith o drin y pren a phaentio wedi ei gwblhau erbyn hyn a'r capel yn edrych yn hardd gyda charped glas newydd. Diolch yn arbennig i'r 'tadau ifanc' am eu gwaith ac i'r chwirydd a ddaeth i lanhau.

Gohebydd – Gwenda Humphries

Pisgah, Rhiwlas

CYFARCHION A DYMUNIADAU DA Anfonwn ein llongyfarchiadau at Mrs Meirwen Owen sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Ionawr. Dymuniadau gorau i John a Heulwen Evans sydd yn gwella ar ôl triniaethau yn yr ysbyty a chofion at bawb arall sydd heb fod yn teimlo'n dda.

Gohebydd – Dilys Parry

Ebeneser, Treuddyn

CYDYMDEIMLO

Tristwch mawr i ni fu colli Mrs Dilys Edwards yn ddiweddar ac estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu galar. Roedd Mrs Edwards yn gefnogol iawn i Ebeneser ac yn ymddiddori yng ngwaith y capel er iddi fethu dod i'r gwasanaethau oherwydd ei salwch. Roedd ei hangladd o dan arweiniad y Parchedig Eirlys Gruffydd gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

DATHLU'R NADOLIG

Cawsom wasanaeth carolau bendithiol

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

iawn dan arweiniad y Parchedig Eirlys Gruffydd ac roedd yn dda gweld cynifer yn bresennol yn yr oedfa. Unwaith eto rydym yn ddiolchgar iawn i'n gweinidog am baratoi'r gwasanaeth a hefyd am ei gofal drosom ar hyd y blynyddoedd.

DYDD GWENER Y GROGLITH, 25 MAWRTH 2016

Cynhelir gwasanaeth Cymun bore Gwener y Groglith am 10.30yb, dan arweiniad y Parchedig Eirlys Gruffydd.

Gohebydd – Maldwyn Roberts

Horeb, Llanrwst

DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Margaret Hughes a dreuliodd rai dyddiau yn yr ysbyty ym mis Rhagfyr yn dilyn codwm yn ei chartref.

CROESAWU PAWB I'R SWPER

Cynhaliwyd ein swper Nadolig blynyddol ar yr 11eg o Ragfyr a chafwyd gwledd wedi ei pharatoi gan y chwiorydd. Braff oedd croesawu ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett a Catherine atom. Roeddem hefyd yn falch o gael cwmni Ann sydd yn aelod ym Maenan.

MWYNHAU YM MRWSEL

Treuliodd Peter a Marcia y Nadolig ym Mrwsel eleni, gyda Chris eu mab a'r teulu.

BABAN NEWYDD

Llongyfarchiadau i Gareth ac Eira Jones ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Elis Arthur ar 17 Rhagfyr, yn drydydd plentyn i Dylan a Rhian, Parc yr Eryr, Llanrwst.

OEDFA ARBENNIG

Cynhaliwyd oedfa undebol yn Horeb ar ddydd Sul, Rhagfyr 20fed. Cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett yn y bore a gwasanaeth y plant yn y prynhawn dan ofal Mr Arwel Roberts. Diolch i Nesta Jones am gyfeilio ar yr organ yn y ddau wasanaeth.

LLIFOGYDD

Rydym yn cofio am bawb sydd wedi cael colledion yn sgil y tywydd garw y gaeaf hwn. Dioddefodd Dyffryn Conwy ac yn arbennig Trefriw a Llanrwst lifogydd enbyd ar ddydd San Steffan ac roedd amryd o'r aelodau yn bur bryderus am eu cartrefi ond yn ffodus peidiodd y glaw cyn i neb gael difrod.

Anfonwn ein cofion at yr aelodau hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi a dymunwn flwyddyn newydd dda a heddychlon i bawb.

Gohebydd – Eira Jones

Salem, Rhyd y Foel

FFAIR NADOLIG

Cynhaliwyd ein ffair Nadolig yng nghanolfan y pentref ar Ragfyr 4ydd. Yn ogystal â stondinau a raffl, darparwyd paned a mins peis. Braff iawn oedd gweld cynifer o bobl wedi troi allan i'n cefnogi er gwaethaf y tywydd garw. Gwnaethpwyd elw o £450 at y capel.

ORGAN

Ychydig fisoedd yn ôl daeth i'n sylw nad oedd yr organ ar ei gorau - angen ychydig o faldodi, efallai. Fe alwyd ar wasanaeth Mr Michael Davies o gwmmi 'Menai Organs', er mwyn adnewyddu'r offeryn. Darganfu mai llygod bach oedd yn bennaf gyfrifol am ddirywiad y sain: roeddent wedi bwyta'r fegin ledr yn ulw! Fe weithiodd Mr Davies yn ddiwyd am oriau maith gan gynllunio ac adeiladu rhannau cywrain iawn a chyfuno crefftiau hen a newydd er mwyn sicrhau fod yr organ yn gweithio ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig.

GWASANAETH CAROLAU DWYIEITHOG

Ers rhai blynyddoedd bellach mae'r gwasanaeth yma yn profi'n boblogaidd iawn ac yn mynd o nerth i nerth. Ar 20 Rhagfyr eleni roeddem hefyd yn falch o gael defnyddio'r organ unwaith eto a buom yn ffodus i gael gwasanaeth Mr Geraint Roberts wrth yr offeryn. Cafwyd eitemau gan Beth, Steffan a Cadi a datganiad o gerddoriaeth Nadoligaidd gan Geraint. Diolch i'r rhai fu'n addurno'r capel ac yn darparu lluniaeth yn y festri. Casglwyd £210 at Weithredu dros Blant.

Gohebydd – Siân Price

Ebeneser, Trefor

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn ag Arthur ac Ann Jones yn dilyn marwolaeth cefnder i Arthur yn ardal Rhuthun.

PLANT DAWNUS

Llongyfarchiadau i Arwyn Foulkes sydd wedi pasio ei arholiad Gradd 5 ar y cornet ac i Tomos Dafydd Williams a gafodd wobrau am ei waith ysgrifenedig yn Eisteddfod Talwrn yn ddiweddar. Da iawn, hogiaul!

GWELLA

Rydym yn falch iawn fod Robyn Parry wedi gwella mor dda. Roedd yn ei ôl yn y capel ar ei faglau o fewn dim i'w driniaeth.

Gohebydd – Carys Thomas

Ebeneser, Dolgellau

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad iechyd i'n gweinidog y Parchedig Angharad Griffith. Rydym yn falch iawn fod Mrs Megan Abbey yn well a phleser yw ei gweld yn ôl yn y capel wedi wythnosau o anhwylder.

Gohebydd – Gwyneth Meredith

Pendref, Dinbych

DAL I OBEITHIO

Parhau i ddisgwyl a wnawn am ganiatâd i wneud y gwaith atgyweirio ar nenfwd y capel. Ar hyn o bryd, felly, yn y festri y byddwn yn addoli a chawsom ein harwain mewn addoliad gan y Parchedigion Jennie Hurd, Cledwyn Parry, Tom Evans Williams a Glyn Thomas, a hefyd Royce Warner a Richard Jones.

Y CYFRIFIAD YM METHLEHEM

Ar nos Wener olaf Tachwedd cawsom ein harwain mewn cyfarfod arbennig, diddorol a bendithiol gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd, i'n paratoi ar gyfer



Tymor yr Adfent a Gŵyl y Geni. Thema'r cyfarfod oedd llun yr arlunydd Peter Bruegel (1527-1569) sef 'Y Cyfrifiad ym Methlehem'.

FFAIR HYDREF

Cynhaliwyd Ffair Hydref lwyddiannus yng Nghanolfan Eirianfa ar Dachwedd 21ain. Diolch am bob cyfraniad.

DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn wellhad i'r Parchedig Cledwyn Parry a fu yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

*Gohebyddion – Mary Jones
a Rhiannon Rogers*

Pontrobert

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Huw Gwalchmai sydd wedi colli perthynas.

GWASANAETH NADOLIG

Cawsom wasanaeth Nadolig undebol, wedi'i drefnu gan Margaret Herbert, a oedd yn ddiweddglo bendigedig i'r flwyddyn. Diolch yn fawr i'r rhai a baratôdd y paned ar y diwedd.

Gohebydd – Margaret Blainey

HOLWCH EICH HUNAIN

gan Ceri H. Jones

“Un corff sydd, ac un Ysbryd, megis ag y’ch galwyd yn un gobaieth eich galwedigaeth; Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll. Eithr i bob un ohonom y rhoed gras, yn ôl mesur dawn Crist.” Effesiaid 4:4-7.

Mae’r rhan fwyaf o draddodiadau Cristnogol yn rhoi pwys mawr ar y weithred o edrych ar gyflwr ysbrydol yr unigolyn, sydd yn unol â dysgeidiaeth y Beibl fod iachawdwriaeth yn dibynnu ar ymateb personol i ras Duw. Yn wir, anogir Cristnogion fel hyn gan yr apostol Paul: **“Profwch eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain”** (2 Cor. 13:5). Yn ystod tymor y Grawys, mae llawer o Gristnogion yn gwneud ymdrech arbennig i brofi yr hyn y maent yn ei gredu.

Yn naturiol, mae hyn yn gallu bod yn broses bersonol iawn. Ond rhaid cofio hefyd fod Duw wedi ein gosod yn rhan o deulu o Gristnogion, sef yr Eglwys, i fwynhau cymdeithas â’n gilydd. Beth yw natur y gymdeithas hon? Mae hi’n golygu llawer mwy nag addoli gyda’n gilydd ar y Sul yn unig; mae’r Beibl yn sôn cryn dipyn am weddio gyda a thros ein gilydd, am astudio’r Gair, rhannu, cynorthwyo, ac yn y blaen. Mae’r apostol Iago yn ein hannog fel Cristnogion i fod yn onest gyda’n gilydd, i gyffesu ein camweddau “bawb i’ch gilydd”. Felly, mae’r broses o ymholi i’n cyflwr ysbrydol hefyd yn medru cynnwys yr Eglwys gyfan.

Wynebu’r her

Yn adlewyrchiad o hynny, byddwn ni fel eglwys a chapeli yn Aberdyfi wastad yn gwneud ymdrech yn ystod y Grawys i ddod at ein gilydd, i ddarllen Gair Duw, trafod a gweddio. Wrth gwrs, nid yw’r gwaith o brofi ein hunain, yn bersonol neu fel cymuned ehangach, bob amser yn rhwydd. Ar wahân i’r gwaith o drefnu a rhedeg gweithgareddau undebol (sydd angen “gostyngeiddrwydd ac addfwynder” yn aml iawn!), mae’r cyfarfodydd yn medru bod yn heriol, gan fod y teulu Cristnogol yn dueddol o fod yn amrywiol o ran traddodiadau a safbwyntiau ar



wahanol bynciau. Defnyddiaf y term ‘heriol’ yn yr ystyr gorau posib, oherwydd bod y cyfarfodydd yn ein gorfodi ni yn aml i edrych o’r newydd ar yr hyn y mae’r Beibl yn ei ddweud go iawn. Yn ei dro, mae hyn yn ein gorfodi ni fel Cristnogion i wynebu cwestiynau megis y canlynol: lle rwyf fi yn sefyll yn hyn i gyd? A ydwyf yn byw yn ôl ewyllys Duw, neu yn ôl syniadau rwyf wedi eu creu fy hunan? A yw fy mywyd wedi ei seilio ar wirioneddau Efyngyl Iesu Grist, ynteu ar syniadau dynol?

Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd

Mae dod at ein gilydd i drafod a rhannu mewn cyfarfodydd o’r fath yn gymorth

mawr inni fel Cristnogion ‘holi ein hunain’. Gallwn dderbyn cymorth, a rhoi cymorth i Gristnogion eraill. Ond, er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid i ni feddu ar agwedd gywir. Os awn i gyfarfodydd undebol gyda’r bwriad o ddyrchafu ein hunain, ein henwad, neu ‘agenda’ arbennig, ni fyddwn yn debygol o dderbyn - na rhoi - llawer o fendith. Yn waeth na hynny, mae’r fath agwedd yn dibrisio gwaith gras yn ein bywydau. Fel Cristnogion, rhaid “goddef eich gilydd mewn cariad; gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd”, gan gofio mai “un corff sydd, ac un Ysbryd”; ein bod ni fel Eglwys yn rhodio mewn “un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad oll” (gweler Eff. 4:2-5). Mae’r un Duw yn preswyllo yng nghalon pob gwir Gristion, a ninnau wedi derbyn gras gan Dduw “yn ôl mesur dawn Crist” (Eff. 4:7), yn Fethodist, Beddydiwr, Anglican, ac yn y blaen.

Mae tymor y Grawys yn gyfle i ni fel Eglwys, o bob enwad, ddod at ein gilydd yn y gwaith o gryfhau ein ffydd, ac o ddod i adnabod ein Gwardwr Iesu Grist yn well.

Nid yw hi bob amser yn rhwydd gwneud hynny, ac weithiau mae’n gofyn i ni lyncu ein balchder. Ond, os gwnawn, byddwn yn ufuddhau i orchymyn Duw “i gadw undeb yr Ysbryd”. Boed i Dduw ein cynorthwyo i edrych heibio yr hyn sydd yn ein gwahanu, at yr hyn sydd yn ein huno fel ei Eglwys.

TAITH Y GRAWYS DRWY’R ANIALWCH

gan y Parchedig Peter Jennings

Mae rhyw duedd ynof i fod yn ‘loerig’! Mae’r loer, y misoedd, troad y rhod a’r cyhydrosau yn fy swyno. Caf wefr o weld lleuad fedi a lleuad hela, ac o sylwi yn aml pa mor “dyner yw’r lleuad heno”. A llawenydd i mi hefyd yw fy mod yn cael byw o fewn tri neu bedwar calendr gwahanol - y calendr seciwlar, calendr litwrgaidd yr Eglwys, y calendr Iddewig a’r calendr Mwslemaidd.

Cefais ar ddeall, a does gen i ddim rheswm i amau, fod ein calendr seryddol yn seiliedig ar flwyddyn o 365 diwrnod a phum awr a 48 munud a 45½ eiliad. Dyna pam y byddwn yn ychwanegu diwrnod bob pedair blynedd...ond nid ar droad y ganrif...er mwyn cadw cydbwysedd mathemategol y calendr. A’r mis bach sy’n cael y diwrnod ychwanegol – mae hynny’n ddigon teg. Mae llawer o bobl yn gweld Chwefror 29ain yn ddyddiad digon od, na wyddan nhw beth i’w wneud ohono.

Nid yw’r Calendr Iddewig yn cael yr un problem...er bod ganddo broblemau eraill! Mae iddo 12 mis a gyfrifir yn ôl y lleuad (354 diwrnod). Mae’n dilyn cylchdro 19 mlynedd, a daw mis naid, ar ôl mis Adar, ym mlynedd 3, 6, 8, 11, 14, 17 ac 19 yn y cylchdro.

Efallai y byddem ni yn dweud “Mae’r Pasg – Pasg yr Iddewon – yn gynnwys eleni” neu “Mae’r Flwyddyn Newydd Iddewig yn gynnwys eleni”, ond nid felly o gwbl gan eu bod yn digwydd yn union yr un pryd yn y Calendr Iddewig. Ein calendr ni sydd yn drysu pethau. “Not many people know that!” fel y buasai Michael Caine yn dweud.

Petaech chi wedi’ch geni ar 29 Chwefror, pryd fydddech chi’n dathlu eich pen-blwydd? Ai unwaith bob pedair blynedd? Rydych yn mynd i fethu dathliadau blynyddol! Ac mae sôn am fethu pethau yn dod â fi’n ôl at y Grawys.



Mae’r Grawys yn dechrau gyda meddwl am Iesu yn yr anialwch. Mae’r anialwch yn rhan o’n profiad. Mae’n golygu unigrwydd – yng ngeiriau Harry Williams, “a sense of being alone – boringly alone, or saddeningly alone, or terrifyingly alone.” Cafodd yr Iesu ei yrru – bwrw allan, meddai Marc – gan yr Ysbryd i’r anialwch.

Pam i’r anialwch? Byddwn yn sôn am ‘dir neb’ ond yn yr oesoedd gynt credai pobl mai ‘tir di-dduw’ oedd yr anialwch...lle anffrwythlon, di-fendith, nad oedd unrhyw dduw yn malio amdano. Yn erbyn y cefndir hwn y byddai daioni yn ymgiprys â drygioni. Felly, ar gyfer Plant Israel, Ioan Fedyddiwr, Iesu Grist, yr Eseniaid, Cymuned Qumran a meudwyaid a mynaich Cristnogol, dyna’r fan lle caent eu profi a’u paratoi. Rhan o’n paratoad a’n hyfforddiant yw unigrwydd. Nid yw’r hyfforddiant yn para am byth...deugain dydd a deugain nos. I Hosea, ‘mis mêl’ ym mherthynas yr Arglwydd ag Israel oedd yr anialwch. I Eseciel, a dramwyodd drwy’r anialwch ar ei daith i alltudiaeth ym Mabilon, haul crasboeth, tywod crasboeth, profiad arteithiol ydoedd.

Y Grawys yw’r adeg pan awn ninnau i’r anialwch. Felly...byddwch yn barod i dderbyn eich anialwch. Ymwrthodwch â’r demtasiwn i anobeithio. Brwydrwch yn erbyn y demtasiwn i fod yn sinigaidd, i beidio â gwneud dim gan feddwl “Beth ydi’r pwynt?”

Wrth fyfyrto ar stori’r Iesu, fe sylwedolwch beth mae eich Grawys yn ei olygu mewn gwirionedd...ac yna bydd angylion yn gweini arnoch chithau, fel y daethant a gweini ar ein Harglwydd.

‘PEDWARAWD AR GYFER DIWEDD AMSER’

gan Gareth Blainey

Dyna gyfieithiad Cymraeg o deitl pedwarawd ar gyfer clarinét, feiolin, sielo a phiano a gafodd ei berfformio am y tro cyntaf saith deg pump o flynyddoedd yn ôl – y “Quatuor pour la fin du temps”. Nid mewn neuadd gyngerdd y digwyddodd hynny ond yng ngwersyll carcharorion rhyfel Görlitz yn yr Almaen gan mai’r Ffrancwr Olivier Messiaen (1908-1992) a gyfansoddodd y darn tra oedd o’n garcharor yn y gwerysll yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd Messiaen yn Gatholig pybyr a dywedodd fod y gwaith wedi’i ysbrydoli gan adnodau o bennod 10 yn Llyfr y Datguddiad yn y Testament Newydd. Dyma dalfyriad o’r adnodau hynny, yn yr hen gyfieithiad: ‘A’r angel yr hwn a welais yn sefyll ar y môr, ac ar y tir, a gododd ei law i’r nef, ac a dyngodd i’r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yr hwn a greodd y nef, a’r ddaear, a’r môr na byddai amser mwyach: ond yn nyddiau llef y seithfed angel, pan ddechreuo efe utganu, gorffennir dirgelwch Duw’.

Messiaen oedd un o brif gyfansoddwyr



Olivier Messiaen

yr ugeinfed ganrif a chafodd ei annog i gwblhau’r pedwarawd gan ddau ddyn arall oedd gydag o yn y gwerysll - un o’i gyd-garcharorion Henri Akoka a’r giard Karl-Albert Brüll, Almaenwr oedd yn teimlo trueni dros y carcharorion oher-

wydd nad oedd o’n cefnogi’r Natsiaid. Iddew o Algeria oedd Akoka, oedd yn berchen ar yr unig offeryn cerddorol yn y gwerysll - clarinét - ac argyhoeddodd o Messiaen os mai ewyllys Duw oedd y ffaith ei fod o’n garcharor y dylasai ddefnyddio ei ddoniau. Gallodd wneud hynny ar ôl i Brüll roi pensil, papur a rhwbiwr iddo a sicrhau ei fod yn cael llonydd i weithio. Helpodd y giard hefyd i gael gafael ar feiolin, sielo a phiano; ac ar ôl perfformiad cyntaf y pedwarawd - gyda Messiaen wrth y piano - bu Brüll yn allweddol yn y broses o ryddhau’r cyfansoddwr o’r gwerysll. Ffugiodd y giard bapurau gyda stamp gafodd ei lunio o daten.

Ar 15 Ionawr 1941 y perfformiwyd y “Quatuor pour la fin du temps” am y tro cyntaf gerbron cynulleidfa o gannoedd o garcharorion a swyddogion byddin yr Almaen a dywedodd Messiaen:

‘Ches i erioedd gynulleidfa’n gwrandao mor astud ar fy ngherddoriaeth’. Os ydych chi eisiau gwrandao ar y pedwarawd - sy’n hudolus yn fy marn i - mae hi’n ddigon rhwydd dod o hyd i berfformiadau ohono ar y We.



Llun trwy garedigrwydd Roots for Churches

A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

Howard Hughes a Morwenna Roberts. Margaret Tüzüner oedd wrth yr organ. Cafwyd unawdau swynol gan Catrin ar y corn tenor a Henry ar y clarinét. Darllenodd Alis adnodau o'r ail bennod o Efengyl Luc. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd paned a mins pei a chafwyd ymweliad gan Siôn Corn.

Gohebydd - Branwen Ll. Edwards

gyfer tymor y Nadolig gan Llywela Roberts. Mwynhawyd swper a baratowyd gan aelodau Cymdeithas Gymraeg Llanfyllin.

PASIANT NADOLIG

Daeth tyrfa dda ynghyd ar y nos Sul cyn y Nadolig i weld y Pasiant, ac ni chawsant eu siomi oherwydd roedd y cyflwyniad a'r cynhyrchiad yn wahanol, yn wreiddiol ac yn ardderchog iawn. Cyplyswyd yr hyn a ddiwyddodd ar faes y gad yn Ffrainc ar Noswyl Nadolig 1914 gyda hanes y Nadolig cyntaf, a'r ddolen gyswllt oedd y garol Dawel Nos. Cyflwynwyd y pasiant gan Rhian Lloyd Evans a'r organydd oedd Eldrydd Jones. Aeth y casgliad tuag at Ward 15 Ysbyty Birmingham lle mae plentyn o Lanfyllin yn cael triniaeth.

Gwnaed casgliad o £50 hefyd, at Gweithredu dros Blant, yng ngwasanaeth y Tabernacl ar fore'r Nadolig.

GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYN

Trefnwyd y gwasanaeth ar Ionawr 3ydd gan Tom a Mair Ellis a chymerwyd rhan gan nifer o'r bobl ifanc sef Teleri a Meg, Elen, Siwan a Catrin, Eos ac Elain, gyda chymorth Bethan Jones, Llinos Jones a Brenda Davies. Yn ogystal cafwyd cwis Beiblaidd gan Tom a gair amserol gan y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards. Dymunwyd yn dda i Betty Ellis oedd wedi dioddef cwmp cas. Yr organydd oedd Eldrydd Jones. Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Blwyddyn Newydd hefyd ar y noson ganlynol a chymerwyd rhan gan y gweinidog a Tom Ellis, Mona a Robin Hughes a Margaret Blainey gyda Llywela Roberts wrth yr organ.

Gohebydd - Robin Hughes

Ardal Bathafarn

CYDYMDEIMLO

Gyda gofid y clywsom am farwolaeth **Neville Griffiths** mewn damwain car yn Efrog ar drothwy'r Nadolig, ac yntau ond yn 48 mlwydd oed. Roedd Neville yn enedigol o Graigfechan ac yn aelod ffyddlon o Ysgol Sul Graigfechan gynt. Cydymdeimlwn â'i rieni Gwyneth a Stephen, Dylan, Dorian, Meriel a Rhian ei frodyr a'i chwiorydd a Linzi ei bartner. Yr un yw ein cydymdeimlad at **Ann, Bontuchel, o golli Gwen**, un a fu'n ffyddlon iawn ym Mathafarn a Graigfechan gynt. Cydymdeimlwn yn ogystal â theulu'r diweddar **Bill Dowell**, ymgymerwr angladdau yn Rhuthun a fu'n gefn mawr i deuluoedd lu yn eu galar, yn gymwnaswr a ffrind i lawer.

DYMUNIADAU GORAU

Meddyliwn yn dyner am Ifor Parry, Gwyddelwern, sydd yn Ysbyty Maelor, ac Enid Edwards, Glyndyfrdwy, hithau wedi cael triniaeth yn ddiweddar. Cofion annwyl hefyd at Gretta Davies a phawb

Ebeneser, Eglwysbach



*Pwy sy'n
dŵad
dros y
bryn*

Cynhaliwyd parti Nadolig yn Ebeneser ar Ragfyr 28ain. Gan fod Siôn Corn wedi blino ar ôl Nadolig prysur, dosbarthwyd anrhegion gan y Parchedig Philip Barnett. Diolch yn fawr i'r chwiorydd am baratoi bwyd bendigedig.

Gohebydd - Charles Crapper

Ebeneser, Caernarfon

DYMUNIADAU DA

Fel eglwys anfonwn ein cofion cynhesaf at Aelwen Morris a Glenys Williams, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty. Mae Aelwen yn awr yn ymlacio yn ei milltir sgwâr a Glenys yn ymgartrefu dros dro yng Nghartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon.

TE A STONDINAU

Cynhaliwyd te a stondinau Nadolig ac, er i'r tywydd fod yn anffafriol, gwnaed elw anrhydeddus at yr achos yn Ebeneser. Diolch i ferched gweithgar Ebeneser am eu brwdfrydedd diflino.

GWASANAETH NADOLIG

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar 20 Rhagfyr. Estynnwyd croeso i bawb gan Megan Roberts a lediwyd carolau gan Eira Owain, Myfi Powell Jones ac Olwen Jones; cymerwyd rhan hefyd gan Mati Jones, Gwenllian Roberts ac Olwen Hefina Hughes, June Aubrey, John

Salem, Ty'n Lon

ERYL HAF

Trist yw cofnodi marw Eryl Haf, priod Ariel Thomas, ar ddydd Calan. Bu'n aelod ffyddlon yn Nhy'n Lon am bron i 60 mlynedd.

CROESO

Croeso i Arwel Jones sydd wedi dod i fyw i'r Tŷ Capel.

Gohebydd - Angharad Tomos

Preswylfa, Cyffordd Llandudno

LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Mrs Eirwen Jones, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ac i Mrs Iris Jones a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus iawn i chi eich dwy a diolch am eich ffyddlondeb ym Mhreswylfa.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Miss Barbara Thomas yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Nerys Dwynwen Thomas.

GWEDDI

Diolch i'r rhai a gymerodd ran yng nghyfarfodydd gweddi undebol dechrau'r flwyddyn gan gynnwys rhai o ieuencid Preswylfa.

Gohebydd - Eirian Jones

Tabernacl, Llanfyllin

GWELLHAD BUAN

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Eurwen Jenkins; i Iorwerth Jones; ac i Mrs Enid Evans. Da deall bod Huw Francis yn dal i wella, ar ôl cyfnodau yn Ysbytai Stoke, Amwythig a'r Trallwng.

PLYGAIN

Llywyddwyd y Plygain blynyddol yn y Tabernacl gan y gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards. Roedd sglein ar y canu cynulleidfaol a gwerthfawrogyd cyfraniadau partion Merched y Wawr Llanfyllin, Llinos Jones Llanfyllin, Triawd Bwlchycibau, Pedwarawd y Gad, Pedwarawd y Briw, a Thriawd y Treuddyn, ac fe ganwyd Carol y Swper gan y dynion. Yr organydd oedd Eldrydd Jones ac addurnwyd y capel yn hardd ar

sydd mewn gwaeledd, ynghyd â'u teulu-oedd.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Olwen Griffiths ar ddod yn hen nain. Ganwyd mab i Rhys a Kat yng Nghaerdydd, wŷr i Gwenan a Dafydd Carrington. Pob bendith arnynt fel teulu a dymuniadau gorau am wellhad buan i Olwen.

YMDDEOL

Dymuniadau gorau i Marian Thomas sydd wedi ymddeol o'r Gwasanaeth Llyfrgell. Mwynha'r seibiant, Marian!

GWASANAETHAU

Yng Ngwasanaeth Nadolig yr Ardal cymerwyd rhan gan Siôn Hughes, Glyn Jones, Marian ac Elwyn ac Elizabeth. Hyfryd oedd cael cwmni'r Cadeirydd y Parchedig Jennie Hurd a roddodd neges bwrpasol inni. Mwynhawyd cymdeithas a lluniaeth wedi'r oedfa. Ar fore Nadolig cawsom Oedfa Gymun ym Methania a chynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn ym Mathafarn.

CYTŪN

Roeddem yn falch o gael cyfle unwaith eto i ganu carolau ger archfarchnad y dref.

Gohebydd – Elizabeth Jones

Seion, Pwllheli

GWASANAETH NADOLIG

Cynhaliwyd gwasanaeth o ddarlleniadau a charolau a drefnwyd gan Miss Valerie Williams. Cymerwyd rhan gan Miss Gwyneth Evans, Mrs Elizabeth Owen a Dr Osian Ellis. Canwyd un o garolau'r Plygain gan Osian Ellis ac arweinwyd y weddi a'r myfyrdod gan Valerie Williams. Rhoddwyd y fendith gan y Parchedig Gwyn Thomas.

Soar Brunswick



ADNEWYDDU'R CYFAMOD

Ar y Sul cyntaf yn Ionawr, daethom at ein gilydd i wasanaeth y Cymun ac Adnewyddu'r Cyfamod, dan ofal ein gweinidog y Parchedig Gwyn Thomas. Dr Osian Ellis oedd yn cyfeilio.

Gohebydd – Elizabeth Owen

Soar Brunswick, Y Rhyl

Mae nifer da ohonom yn cofio amser, heb fod mor bell yn ôl, pan oedd wyth o addoldai Cymraeg yn y Rhyl, sef Bethel, Brunswick, Carmel, Clwyd Street, Soar, Tabernacl a Salem, Warren Road ac Eglwys y Drindod Sanctaidd. Bellach dim ond Clwyd Street sydd ar ôl.

Ar ddydd Sul Rhagfyr 6, cynhaliwyd yr oedfaon olaf yn Soar Brunswick. Yn y bore gweinyddwyd y Cymun olaf gan y cyn Weinidog, y Parchedig Trefor Lewis ac yn y prynhawn daeth llawer o gyfeillion ynghyd i oedfa dan ofal Cadeirydd Synod Cymru, y Parchedig

Ddr Jennifer Hurd. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig John Barnett a phregethwyd gan y Parchedig Cledwyn Parry, a roddodd yn ogystal beth o hanes yr Achos. Gwynfor Jones oedd wrth yr organ. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Agorwyd y capel yn 1895 i gymryd lle yr hen Soar, hefyd yn Sisson Street. Roedd nifer o dai wedi eu hadeiladu yn yr ardal, yn enwedig ar gyfer y rhai a ddaeth i'r Rhyl i weithio ar y rheilffordd. Yn 1987 y newidiwyd yr enw i Soar Brunswick, wedi i aelodau Brunswick ymuno â Soar. Yn anffodus, gyda llai o Gymry Cymraeg yn awr, a'r gostyngiad cyffredinol mewn aelodaeth eglwysig yn ein gwlad, bu'n rhaid i'r aelodau wneud y penderfyniad trist eu bod am ddwyn yr achos i ben.

Bu'r addolwyr yn ffyddlon iawn yn y capel hwn a diolchwn am y rhai fu'n gweithio mor galed i gadw'r drws ar agor am 120 o flynyddoedd.

Gohebydd – Beryl Dean

Eglwys Unedig Colwyn

CYFARFOD GWEDDI

Cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi Misol yn Nisgwylfa ar Ionawr 4.

Diolch i Marian am ein cynrychioli ac

i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfodydd yma yn ystod 2015. Diolch hefyd i Gwyn Jones am ei gymorth wrth yr organ.

GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion caredig at Megan a

Harold Williams, a fu yn Ysbyty Bae Colwyn, a phawb sydd mewn gwaeledd. Dymuniadau gorau i Catherine a dderbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar.

Gohebydd – Rhiannon Jones

LLUNIAU O GYNGERDD CAROLAU COLWYN



Côr Meibion Colwyn



Plant Ysgol Bod Alaw

Planhigion y Beibl

gan W. Arvon Roberts

82. Saffrwn (Crocus sativus)

Y mae dy blanhigion yn berllan o bomgranadau, yn llawn o'r ffrwythau gorau, henna a nard, nard a saffrwn, calamis a sinamon, hefyd yr holl goed thus, myrr ac aloes a'r holl berlysiâu gorau. Y mae'r ffynnon yn yr ardd yn ffynnon o ddyfroedd byw yn ffrydio o Lebanon. Deffro O wynt y gogledd, a thyrd, O wynt y de, chwyth ar fy ngardd i wasgaru ei phersawr.

Caniad Solomon 4:13-16


Yng nghyfnod y Beibl, roedd y saffrwn yn bwysig iawn i bobl y Dwyrain fel cyffaith a pherarogl melys, a'r stigmâu yn arbennig o werthfawr am eu priodoledd lliwio bwyd. Mae'r stigmâu hyn yn lliw oren llachar, yn sych a chul ac fel edau ac maent yn hynod o aromatig. Maent yn chwervw eu blas ac yn staenio'r gwefusau. O'u pacio nhw yn dynn, gellir eu gwerthu fel cacennau saffron, ac yn y ffurf honno y'u cludir o Persia i India, lle y'u defnyddir i ychwanegu lliw melyn i'r cyffaith. Mae'r blodeu yn tyfu o fwlb ac mae'n blodeuo yn yr hydref. Mae ei liw yn debyg i lafant ac mae iddo arogl moethus. Mae Homer a Theophrastus yn cyfeirio ato yn eu hysgrifau a Pliny yn cofnodi fod saffron wedi'i wasgaru ar feinciau'r theatrau cyhoeddus, a bod y petalau drudfawr yn cael eu gosod mewn ffynhonnau bychain i wasgaru'r arogl i'r neuadd-dai cyhoeddus. Yn Ewrop cafodd ei ddefnyddio fel sawr a defnydd lliwio, a'i ychwanegu at fffisig gan fferyllwyr. Mae un gronyn o saffron masnachol yn cynnwys stigmâu naw o flodau ac mae



angen tua 4,000 o flodau i wneud owns. Arferid trin y planhigyn ym Mhrydain a chafodd tref Saffron Walden yn Essex ei henw am fod y planhigyn hwn yn cael ei drin yno. Daw'r gair saffron o'r Arabeg *zafran* a'i ystyr yw melyn.

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd:

Dienw	£25
Mrs B M Jones	£10
Fs Eleri Hughes	£10



RHODDION I GWEITHREDU DROS BLANT

Dienw	£50-00
Capel Ebeneser, Eglwysbach ...	25-00
Bob Davies, Penylan, Caerdydd	45-00
Mrs Irene Roberts, Rhuddlan ..	10-00
Mrs Janet Handley, Dolgellau	.142-10
Er Cof Annwyl am y Parch Arthur a Mrs Cavell Williams, -Gareth a Hywel.....	25-00
Er Cof Annwyl am y Parch Gwylfa a Mrs Doris Morgan -Eirian, Alwyn a Wyn.....	25-00
Er Cof Annwyl am y Parch Clifford a Mrs Lilian Roberts -Geraint a'r teulu	20-00
Er Cof Annwyl am Arthur Hughes, Croesoswallt -Cissie, Marian a'r teulu.....	20-00
Er Cof Annwyl am Wil -Ann, Nia, Bethan a'r criw	25-00

Cyfanswm £387-10

Gyda llawer o ddiolch am bob cyfraniad. - Robin Jones.

GWAHODDIAD

Ymweliad y Parchedig Steve Wild a Dr Jill Barber
Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd
2015-2016
â Synod Cymru a Wales Synod
Dydd Iau 17 - Dydd Sul 20 Mawrth 2016.

Cyfle arbennig i aelodau Synod Cymru ymweld â

Byd Mari Jones, Llanycil
Y Bala LL23 7YF

dydd Gwener, 18 Mawrth

rhwng 2-4yp yng nghwmni hwyliog y Parchedig Steve Wild
Llywydd y Gynhadledd

2yp Ymgynnull yn y caffi - lluniaeth ar gael;
2.30yp Ymweld â'r arddangosfa;
3.30yp Paned a sgwrs efo'r Parchedig Steve Wild yn y caffi

CROESO CYNNES I BAWB

Gwybodaeth bellach gan Gadeirydd y Synod
jennifer.hurd@methodist.org.uk
mailto:jennifer.hurd@methodist.org.uk
01691 830926

Rhaglen lawn ymweliad Steve a Jill ar wefan y Synod
www.synodcymru.org.uk

Cynhadledd Ryng-ffydd yr Eglwys Fethodistaidd

gan y Parchedig Peter Jennings

Dros drigain mlynedd yn ôl y daeth ymwybyddiaeth o 'berthynas rhyng-ffydd' yn rhan o fy mywyd am y tro cyntaf. A minnau'n fachgen ysgol, mewn ysgol ramadeg i fechgyn pan oedd y fath beth yn bod, sylweddolais fod cryn nifer o'r hogiau'n mynd i ystafell ar wahân pan oedd y Gwasanaeth Boreol yn cael ei gynnal ac yno byddent yn mwynhau gweddïau Iddewig. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach deuthum yn fwy ymwybodol o arwyddocâd y berthynas rhwng pobl o bob ffydd. Pan oeddwn yn y Coleg Diwinyddol, cawsom ymweliad gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor Cristnogion ac Iddewon. Ymhen amser fe'm penodwyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor hwn fy hun ac mae'r gweddill, mewn ffordd, yn hanes. Chollais i mo'r brwdfrydedd a, lle bynnag y bûm yn gweinidogaethu, bu'r agwedd 'ryng-ffydd' ar bethau yn bwysig i mi.

Hyfrydwch o'r mwyaf imi, felly, oedd derbyn gwahoddiad gan y Cadeirydd i gynrychioli Synod Cymru mewn Cynhadledd Ryng-ffydd a gynhaliwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd yng Ngholeg Cliff yr haf diwethaf. Y syniad oedd rhannu arferion da; rhannu problemau a chyfleoedd, methiannau a llwyddiannau; dysgu gan ein gilydd; cael clywed gan rai sydd wedi meddwl yn ddwfn am y materion hyn a chaniatáu i'r

cynrychiolwyr ddychwelyd at eu gwaith yn Nhaleithiau'r Eglwys Fethodistaidd a manau eraill wedi'u hadnewyddu ac yn barod i ddefnyddio eu dychymyg wrth genhadu ac ymddiddan ag eraill er gogoniant i Dduw.

Roedd y materion a drafodwyd yn deillio o ystod eang o brofiadau: John Wesley a Chrefyddau Eraill, Cyfarfyddiad sy'n Foddion Gras, Myfyrdod am Ysbrydolrwydd Cristnogol ac Ymwneud Rhyng-ffydd. Cyflwynodd cyn-Lywydd y Gynhadledd, Inderjit Bhogal, rybudd Wesley rhag culni ac arweiniwyd y grŵp gan Julian Bond i feddwl sut i ymateb i Islamoffobia. Trowyd ein golygon tuag at y dyfodol lle y dylem ddilyn yr arferion gorau yn lleol. Daeth yn amlwg, wrth rannu ein profiadau, mai gwaith caplaniaeth sydd yn arwain amlaf at ymwneud â phobl sydd â ffydd wahanol...mewn dinasoedd, ysbytai, carchardai a'r lluoedd arfog. Y gobaith yw y bydd pobl ledled y Cyfundeb Methodistaidd, hyd yn oed lle nad oes llawer o bobl o grefyddau eraill, yn cymryd camau i ddeall ffydd pobl eraill a bod yn gyfeillion. Gan fod yr Eglwys Fethodistaidd yn lleiafrif, efallai y bydd hynny'n cynyddu ein cydymdeimlad – wedi'r cwbl, onid lleiafrifoedd ydym ni oll bellach!

Mae Grŵp Ymgynghorol Rhyng-ffydd yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn ystyried cynnal



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Mair Roberts, Capel Bethania, Penmachno gynt, sydd yn awr yn byw yng Nghartref Balmoral, y Rhyl. Dathlodd Mrs Roberts ei phen-blwydd yn 100 oed ar 9 Rhagfyr 2015.

cynhadledd arall ymhen blwyddyn neu ddwy i weld sut y gallwn gynnal ymddiddan pellach a helpu'r eglwysi i fentro i ymgysylltu â phobl ychydig yn wahanol i ni ein hunain ond sy'n rhannu'r un breuddwydion, gobeithion a dyheadau.

SIÂN SEION

gan Robin Jones

Wrth bori drwy gyfrolau 'Hanes Wesleyaeth Gymreig', gwelais hanes diddorol iawn am Jane Williams, neu Siân Seion fel y gelwid hi yn lleol. Seion oedd enw'r capel Wesla ym Mhlwyf Llanddeiniolen, Arfon, y galwyd yr ardal gyfagos ar ei ôl.

Ganed Siân ym Mlaen y Wawr, Pentir, yn y flwyddyn 1771. Yno y bu hi'n byw hyd nes iddi briodi a symud i fyw i'r Bryn, tyddyn bychan sydd ar y llwybr o Seion i'r Felinheli. Roedd Siân yn gymeriad hynod. Dywedir iddi droi at grefydd o dan ddylanwad pregethau John Bryan yn y Fachell Fawr, ger Eglwys Plwyf Llanddeiniolen, pan deithiai Mr Bryan ar Gylchdaith Caernarfon yn 1806/07. Cyfeiriai Siân yn aml at y cyfnod hwnnw fel y 'pryd a'r man' y daeth hi yn 'greadur newydd.'

Rhagorai Siân mewn un peth yn fwy nag unrhyw un arall o'i chyfoedion sef fod cynnwys y Beibl yn fyw ar ei chof ac yn ei chalon. Gallai adrodd unrhyw ran ohono gyda rhwyddineb ar unrhyw achlysur.

Ni allai pregethwr ddarllen testun ei bregeth na dyfynnu adnod heb i Siân fynd â'r geiriau o'i geg yn gyhoeddus, hynny yn profi'n dipyn o brofedigaeth i ambell bregethwr dibrofiad nad oedd yn adnabod Siân. Byddai Siân yn mynd i hwyl mewn sawl oedfa ac yn codi ar ei thraed i orfoleddu; yn anffodus doedd rhai o'i chyd-addolwyr ddim yn hoff iawn o hyn ac yn teimlo fod y cyfan yn tarfu ar yr oedfa ac yn ei gwneud yn amhosib iddynt fwynhau gwrando pregeth mewn heddwch.

Mae sôn am Siân un tro yn cyfarfod ar y stryd yng Nghaernarfon â Mr Preece, un o bregethwyr mawr y cyfnod. Roedd yn adnabod Siân yn dda a thra'n sgwrsio â hi fe sylwodd ar gyflwr truenus ei hesgidiau. Meddai wrthi, rhwng difrif a

chwarae, 'Os gwnewch chi addo bod yn dawel yn Seion y tro nesa y byddaf i yno'n pregethu, Siân, fe brynaf bâr o sgidiau newydd i chi'. Cytunodd Siân a dyna a fu. Daeth yn amser i Mr Preece fynd i Seion i bregethu ac roedd Siân yn y capel a'r esgidiau newydd am ei thraed. Testun Mr Preece oedd 'Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd'. Wrth wrando ar y pregethwr yn disgrifio'r Mab ym-gnawdoledig, Oen Duw, roedd Siân yn teimlo'i chalon yn cynhesu. Yna daeth y pregethwr at aberth yr Oen.

Gwyrodd Siân i ddatod yr esgidiau. Pan aeth i sôn am yr aberth yn tynnu ymaith bechodau'r byd, collodd Siân bob llywodraeth arni ei hun a rhoddodd ffling i'r esgidiau. Gan floeddio, 'Sgidia i Preece a Christ i minnau', dechreuodd neidio a gorfoleddu.

Bu farw Siân, un a garodd ei Gwarddwr yn angerddol a'i ddilyn yn ffyddlon, ar y 14eg o Fai, 1849 yn 78 mlwydd oed.

Bywyd NYRS

gan Nanw Povey

Mae'n siŵr fod llawer o ddarlennwyr y *Gwyllydydd* wedi gweld y gyfres deledu boblogaidd "Call The Midwife". Lleolir y gyfres hon yn Poplar, rhan o'r East End yn Llundain. Mae'n seiliedig ar lyfr adnabyddus Jennifer Worth ac yn tynnu ar atgofion yr awdur o'r 1950au. Braint fawr i mi oedd cael gweithio fel nyrs yn Nwyrain Llundain a bod yn dyst fy hun i waith y lleianod hynod a bortreadir yn y gyfres. Cefais fy hyfforddi fel Nyrs S.R.N. yn y Royal London Hospital, Whitechapel E.1., sydd yn ymddangos yn aml yn y gyfres, y nyrsys mewn lifrai a llewys anferth a chap ffril yn union fel ninnau!

Yn wir, ychydig iawn oedd wedi newid erbyn i mi ddechrau gweithio yn y rhan hon o Lundain yn y 1960au. Roedd puteindai Cable Street yn dal yno a rhaid oedd cerdded heibio iddynt yn hwyr y nos ar fy ffordd yn ôl i'r 'Nurses' Home'. Dyma ardal "Jack the Ripper" a dyma lle teyrnasai'r brodyr Kray gan gweryla â'r gang Richardson. Gwelais drosof fy hun yr erchylltra oedd yn deillio o'r hyn a wnaï'r dihirod hyn, a minnau'n nyrs staff yn y theatrau. Bûm yn gofalu am rai y credai'r heddlu eu bod yn rhan o gang – arhosit yn ddiennw gyda rhif yn unig a heddwys yn eu gwarchod ddydd a nos.

Fel ym mhob un o'r ysbytai mawr enwog yn Llundain, byddai llawer o Gymry yn dod i weithio yn yr Ysbyty Brenhinol. Bûm yn cydweithio yno â rhai a ddaeth yn ffrindiau oes fel Ann James (Griffiths) o Hen Golwyn a Chapel Isaac erbyn hyn. Roeddem ein dwy eisoes wedi derbyn hyfforddiant gyda'n gilydd fel nyrsys orthopedig yn Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt, Gobowen, cyn mynd i Lundain.

Yn gweithio fel Almoner (gweithiwr cymdeithasol) yn yr Ysbyty Brenhinol yr oedd Elisabeth Roberts, un o ferched y pregethwr enwog John Roberts, Llanfwrog. Un diwrnod – dychmygwch fy nychryn – roeddwn yn gweithio ar y ward a dyma'r Sister yn fy ngalw i'r swyddfa am fod Gweinidog am fy ngweld. Roeddwn wedi cyfarfod y Parch John Roberts gartref ym Mhenllyn a dyna lle roedd yn awr – dyn tal iawn, yn ei goler gron – wedi dod i edrych amdanaf. Roeddwn wrth fy modd fod




rhywun mor enwog a phwysig wedi cofio am ryw nyrs fach fel fi.

Bryd hynny, cyn dyfodiad Dr Beeching, roedd yn bosib dal tren o Lanuwchllyn a bod yn Gobowen mewn llai nag awr, ac yn Paddington Llundain mewn llai na phedair! Pan es i Lundain i ddechrau roeddwn yn byw yn y 'Cavell Nurses Home' a enwyd ar ôl un o nyrsys enwocaf Prydain, Dame Edith Cavell. Merthyrwyd hi gan yr Almaenwyr yng Ngwlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf am achub awyrenwyr o Brydain a Chanada. Fe'i saethwyd ar doriad gwawr ar y 12fed o Hydref 1915, a hithau'n 49 oed: nodwyd canmlwyddiant ei merthyrdod y llynedd. Mae cofgolofn hardd iddi ar Charing Cross Road ger yr Oriel Bortreadau Genedlaethol a Sgwâr Trafalgar.

Addysg anhygoel o dda ddaeth i'm rhan yn Ysbyty Brenhinol Llundain. Yn nes ymlaen, astudiais fydwreigiaeth a dringo'r ysgol broffesiynol honno, yna gweithio fel Uwch Diwtor mewn bydwreigiaeth. Yng nghyfnod Mrs Thatcher symudwyd addysg nyrsio a bydwreigiaeth allan o'r gwasanaeth iechyd i'r Brifysgol a bûm yn ddigon ffodus i gael swydd Cydlynnydd Addysg Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Bangor – profiad go wahanol, a olygai weithio hefo mwy o ddynion!

Cydio Dwylo

gan Dewi Rhys



Ai dim ond fi oedd yn meddwl fod awyrgylch y Nadolig eleni yn arbennig o wresog, a phobl yn dangos mwy o ysbryd ewyllys da nag arfer? Tybed ai closio at ein gilydd rydym ni er mwyn gwarchod ein hunain a'n gilydd, a hynny am ein bod mor ymwybodol o'r digwyddiadau erchyll yn ein byd. Yn gysgod drosom mae'r erchyllterau ym Mharis, Syria, yr Aiffet a manau eraill; rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd.

A oes gobaith am fydd heb ryfeloedd dibwrpas? Ym mhob oes mae rhai wedi sefyll yn ddewr dros heddwch. Rhai o'n beirdd hefyd wedi mynegi doethineb tawel all fod yn gymorth i ni. Dyna Waldo, a gredodd mewn brawdoliaeth yn wyneb gelyniaeth ac erledigaeth. Ac onid yw llwyr ymroddiad rhai fel George M. Ll. Davies a Gwynfor Evans yn ein hysbrydoli. Yr hyn a welwn yn y bobl hyn yw gobaith.

Efallai nad yw'r hyn a welwn ar y newyddion yn awgrymu bod llawer o obaith i'n byd. Onid yw'r geiriau 'Os ydy dyn dall yn arwain dyn dall arall, bydd y ddau yn disgyn i ffos gyda'i gilydd' (Mathew 15:14) yn ddarlun o'r hyn sy'n digwydd yn ein byd ni heddiw? Ac nid un dyn yn arwain un arall, chwaith, ond yn hytrach genhedloedd yn cael eu harwain i ffos dioddefaint ac anobaith.

Gair Duw yn unig all gofleidio'r cenhedloedd. O na allai arweinyddion y gwledydd agor eu llygaid i wirioneddau'r Beibl. Gweddiwn am gynnydd yn y cariad anhunanol, aberthol, diamod a elwir yn y Testament Newydd yn *agape*. Yna cawn gydio dwylo a chofleidio ein gilydd yn enw'r Un a ddywedodd 'Carwch eich gelyniau a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid'.

Yn lle creulondeb, 'Bydded llawnder, bydded iechyd, bydded llonder, bydded cariad'.

Er imi ymdddeol yn 2002, rwyf yn dal yn brysur. Cefais fy newis i fod yn Flaenor yng Nghapel y Groes Wrecsam, gwaith heriol a diddorol. Caf hefyd y fraint o annerch grwpiau ar faterion yn ymwneud â phroffesiwn bydwreigiaeth, gan godi cwestiynau moesol fel 'Pa mor hen ydi rhy hen i gael babi?' neu 'Sut rydych chi'n gwybod a ydych wedi bod yn rhieni llwyddiannus?' neu 'A oes gan bawb hawl i genhedlu?'. Ychydig iawn o drafod sydd ar faterion moesol heddiw, felly cofiwch herio'r gwleidyddion!



Drama'r Geni, Ysgol Sul Undebol Llanfyllin

Drama'r Geni, Bethel Prestatyn



Gwasanaeth Nadolig yn Shiloh, Tregarth



Parti Nadolig yn Ebeneser, Eglwysbach



Bu plant Ysgol Sul Bethel Prestatyn yn brysur yn helpu i baratoi bocsys 'Plentyn y Nadolig' i'w hanfon at blant anghenus na fuasai fel arall yn cael anrheg

Tudalen y Plant

Iesu yn cael ei demtio

Wedi i Iesu dyfu i fyny yn Nasareth, aeth i Jwdea a chafodd ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr yn Afon Iorddonen. Daeth Ysbryd Duw o'r nefoedd fel colomen a gorffwys ar Iesu a daeth llais o'r nefoedd yn dweud mai Ef yw mab annwyl Duw sydd yn ei blesio'n llwyr.

Yna aeth Iesu i'r anialwch am 40 diwrnod a daeth y diafol, gelyn Duw, a themtio Iesu ym mhob ffordd bosibl. Roedd Iesu eisiau bwyd a dywedodd y diafol wrtho am droi'r cerrig wrth ei draed yn fara. Gwrthododd Iesu a dywedodd fod yn rhaid i ni wrando ar eiriau Duw.

Yn yr anialwch roedd Iesu yng nghanol anifeiliaid gwyltton



a daeth angylion a gweini arno. (Marc 1 9 -13)



Beth am liwio llun Iesu yn gwrthod troi'r cerrig yn fara?



Gwahoddiad i Barti

Ebrill 9fed
11:00 tan 4:00
Canolfan Ebeneser
Caernarfon

Dathlu 200 rhifyn o'r Gwylledydd

Bwyd, Hwyl,
Gweithgareddau i Blant
Croeso i Bawb!
NIFEROEDD O BOB
CAPEL I ROBIN
ERBYN 8fed
O FAWRTH

